Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau
Equality, Local Government and Communities Committee
ELGC(5)-11-16 Papur 1 / Paper 1

**John Griffiths AC**
Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol
a Chymunedau

**Dai Lloyd AC**
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a
Chwaraeon

10 Tachwedd 2016

Annwyl John a Dai,

**OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU: AMCANGYFRIF O INCWM A THREULIAU AR GYFER 2017-18**

Ar 5 Hydref 2016, bu'r Pwyllgor Cyllid yn trafod amcangyfrif Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar gyfer 2017-18.

Yn ystod y sesiwn dystiolaeth, clywsom fod nifer y cwynion a gafodd yr Ombwdsmon yn ymwneud ag iechyd wedi parhau i godi 4 y cant y llynedd. O'r 662 o gwynion am Fyrddau Iechyd Lleol / Ymddiriedolaethau'r GIG yn ystod y flwyddyn ddiwethaf:

- cadarnhawyd pum adroddiad adran 16;
- cadarnhawyd 102 o adroddiadau yn gyfan gwbl neu'n rhannol; a
- daethpwyd i benderfyniad cynnar ar 113 o gwynion.[1]

Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r cynnydd yn nifer y penderfyniadau cynnar a'r effaith gadarnhaol y mae hyn wedi ei chael ar leihau costau i'r Ombwdsmon. Rydym hefyd yn cydnabod yr angen i sicrhau bod system gadarn ar waith i ddwyn cyrff cyhoeddus yng Nghymru i gyfrif. Fodd bynnag, mae Aelodau yn pryderu am y nifer cynyddol o gwynion yn ymwneud ag iechyd a'r baich gweinyddol y mae hyn yn ei roi ar y GIG, o ystyried nad yw'r rhan fwyaf o'r cwynion yn cael eu cadarnhau.

[1] Cofnod y Trafodion, 5 Hydref 2016, paragraffau 66-71

Fel y gwyddoch, mae cyfrifoldebau'r Pwyllgor Cyllid yn gyfyngedig i ystyried defnydd yr Ombwdsmon o adnoddau, neu wariant o Gronfa Gyfunol Cymru. Felly, roeddem yn awyddus i dynnu sylw'r ddau bwyllgor at ein pryderon.  Tybed a yw hwn yn faes y gall y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau ymchwilio iddo ymhellach pan fydd yn ystyried Adroddiad Blynyddol yr Ombwdsmon ar gyfer 2015-16, neu efallai yr hoffai'r Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon ystyried pam mae nifer cynyddol o gwynion o fewn y Gwasanaeth Iechyd yng Nghymru.

Bydd y Pwyllgor Cyllid yn cynnwys y casgliad canlynol yn ei adroddiad ar amcangyfrif yr Ombwdsmon ar gyfer 2017-18:

*Gan fod rôl y Pwyllgor yn gyfyngedig i graffu ar amcangyfrif yr Ombwdsmon yn unig, mae'r Cadeirydd wedi ysgrifennu at y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau a'r Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon i fynegi ei bryderon ynghylch lefelau'r cwynion yn ymwneud ag iechyd.*

Bydd adroddiad y Pwyllgor Cyllid yn cael ei osod gerbron y Cynulliad erbyn 22 Tachwedd 2016.

Yn gywir

Simon Thomas

**Cadeirydd**